O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 485 (Cy. 80)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4232 (Trosbont Llansanffraid-ar-Elái i Draphont Afon Elái, Caerdydd) (Terfynau Cyflymder 50 mya a 40 mya Dros Dro) 2012

Gwnaed *23 Chwefror 2012*

Yn dod i rym *5 Mawrth 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A4232) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Mawrth 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4232 (Trosbont Llansanffraid-ar-Elái i Draphont Afon Elái, Caerdydd) (Terfynau Cyflymder 50 mya a 40 mya Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 5 Mawrth 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o gerbytffordd tua'r de cefnffordd yr A4232 rhwng trosbont Llansanffraid-ar-Elái a Thraphont Afon Elái yn Ninas a Sir Caerdydd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl